

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu
Remote Attendance
Dydd Iau, 9fed Rhagfyr, 2021, 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL

Cynghorydd Sirol P. Jordan (Cadeirydd)

Cynghorydd Sirol: A. Davies, G. Howard,
B. Strong, F. Taylor, S. Jones, V. Smith

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Roger Hoggins, Pennaeth Gwasanaeth – Prosiectau
Strategol (Cyfnod Sefydlog)
Scott James, Rheolwr Caffael Strategol
Jane Lee, Rheolwr Prosiect, Adfywio a Creu
Lleoedd
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sirol: J.Becker, D. Evans, M.Feakins, R.Roden

1. Datganiadau o Fuddiant

I'w cofnodi fel a phryd sy'n briodol.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

3. Cynnal gwaith craffu cyn penderfynu ar Uwchgynllun Brynbuga a Woodside.

Cyflwynodd Pennaeth Prosiectau Strategol yr adroddiad, gan esbonio y cafodd drafft Uwchgynllun Gwella Brynbuga ac Woodside ei gomisiynu ar y cyd gan Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Tref Brynbuga yn 2018 a bod gwaith dechreuol wedi mynd rhagddo yn 2015 ar faterion rheoli traffig. Cynhaliwyd y gwaith gan ymgynghoriaeth ARUP gyda gweithgor yn cynnwys aelodau o Gyngor Sir Fynwy, swyddogion, Cyngor Tref Brynbuga a Chyngor Cymuned Llanbadog. Esboniodd y bu ymgynghoriad eang drwy ddigwyddiadau rhanddeiliaid i ddod â ni i'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw o ran cyflwyno hyn ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniad. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion prosiectau penodol a chynllun gwella a gweithredu, a argymhellwn ar gyfer ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy, fel y cafodd gan y partneriaid eraill. Ar gyfer Cyngor Sir Fynwy, mae'n ddefnyddiol cael cynllun ehangach gyda nodau tymor byr, tymor canol a hirdymor ac mae'n ein galluogi i berchnogi'r amcanion, ynghyd â Chyngor Tref Brynbuga a Chyngor Cymuned Llanbadog. Dywedodd bod llywodraeth genedlaethol yn croesawu cynlluniau wedi ei strwythuro ac mae'n helpu wrth gynnig ar gyfer cyllid yn y dyfodol, fodd bynnag nid yw swyddogion yn diystyru her canfod cyllid ar gyfer cyflawni rhai o'r prosiectau uchelgeisiol hyn.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddog am yr amlinelliad cryno a gwahoddodd gwestiynau gan aelodau:

Cwestiynau Aelodau:

Gyda chronfeydd strwythurol yn diflannu, pa mor gyflym y gallwn ddisgwyl ffrydiau cyllid newydd i'n galluogi i sicrhau cynnydd?

Mae'n dibynnu pa brosiectau y symudwn ymlaen â nhw. Gallai cyllid teithio llesol gynnwys prosiectau parth cyhoeddus a thrafnidiaeth ond mae'r cyfleoedd yn eithaf newidiol, felly pe byddem i ystyried er enghraifft ailgynllunio Stryd y Bont neu Sgwâr Twyn, y ffrydiau cyllid fyddai Teithio Llesol a Thrafnidiaeth. Weithiau daw ffynonellau cyllid ar gael ar rybudd cymharol fyr felly mae cael cynlluniau clir a syniadau yn eu lle yn ein rhoi mewn sefyllfa dda iawn.

A fyddai'r hen safle amwynder dinesig yn enlliad cyflym, gyda chyfle o bosibl ar gyfer rhai marchnadoedd a pharcio? A fydd parcio ychwanegol o amgylch y carchar ar ôl i'r ffordd gael wyneb newydd?

Deallaf y derbyniwyd cynigion i ddeall ei werth marchnad er mwyn penderfynu ar ei ddyfodol, ond ni chafodd ei werthu ar hyn o bryd. Yn nhermau'r ardal yn ymyl y Neuadd Goffa, gobeithir y byddai darpariaeth yno ond mae problemau draeniad i'w datrys.

O ran parcio, a allaf gael eglurhad beth ydym yn rhagweld y byddai pobl yn ei wneud? A ydym yn rhagweld pobl yn ymweld yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ac nid mewn car?

Cafodd y strategaeth parcio ei hystyried yn y gorffennol ar gyfer pob tref a gall fod angen i ni edrych ar hyn eto yn ei gyfanrwydd yn nhermau codi tâl, ond hefyd wrth benderfynu sut y defnyddir y maes parcio. Bu'n broblem barhaus i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion preswylwyr a'r rhai sy'n ymweld ar gyfer hamdden neu waith ac mae'n debyg y bydd angen gwneud hyn ar ryw bwynt i benderfynu beth sy'n iawn ar gyfer pob tref.

Sut fyddech chi'n gwahaniaethu rhwng prosiectau adfywio a phrosiectau parth cyhoeddus?

Mae'r llinellau rhwng y ddau braidd yn amwys, a felly hefyd y ffrydiau cyllid ond mae cyllid adfywio arall y gallem o bosibl gael mynediad iddo yn y dyfodol gan fod y sefyllfa yn newid yn barhaus yn nhermau cyllid, wrth i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru esblygu. Weithiau mae'n rhaid i ni ddefnyddio nifer o ffrydiau cyllid ar gyfer prosiect sengl a gall hynny fod yn her.

Hefyd sut ydych chi a'ch partneriaid yn mynd i reoli disgwyliaidau oherwydd mae'r cynllun yn uchelgeisiol iawn.

Mae hon yn sefyllfa iâr ac wy oherwydd os nad oes gennych gynlluniau clir, ni allwch gael mynediad i gyllid ond mae cael cynlluniau yn eu lle yn codi disgwyliaidau. Felly byddwn yn edrych ar geisio canfod prosiectau sy'n barod ac y gellir eu cyflwyno mewn ffordd amserol pan ddaw cyllid ar gael. Mae gwahanol ffrydiau cyllid o fewn adfywio trefi ac mae hefyd arian cyfatebol ar gyfer datblygu a phrosiectau strategol a all helpu gyda gwaith dylunio a phrosiectau dichonolrwydd. Mae prosiectau y gallwn edrych arnynt ond mae'r sefyllfa cyllid yn newidiol felly rydym yn sylweddoli fod rheoli disgwyliaidau yn her i'r grŵp llywio.

O safbwynt lleol, beth yw'r flaenoriaeth yma? I gynyddu parcio neu i bedestrianeiddio Stryd y Bont? Hoffwn wybod beth yw'r blaenoriaethau ac a gynlluniwyd ar eu cyfer?

Mae'n anodd ond ar hyn o bryd byddai parcio yn tueddu i fod yn flaenoriaeth fwyaf oherwydd nad yw pedestrianeiddio Stryd y Bont yn ymarferol ar hyn o bryd, heb rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus ehangach. Pe byddid byth yn cytuno ar ffordd osgoi, byddai hynny flynyddoedd mawr yn y dyfodol.

Hoffwn godi ychydig o bwyntiau:

- Diffyg gorfodaeth rheoliadau parcio.
 - Mae angen llawer iawn o waith glanhau ar yr ardal.
 - Cynhaliwyd arolwg o breswylwyr ychydig flynyddoedd yn ôl oedd â chyfradd ymateb o 60% lle cododd pobl faterion traffig ac ystyriaethau mynediad yn Woodside ac anfonais hyn yn ôl at yr Adran Priffyrdd ond ni chefais unrhyw adborth.
 - Yn nhermau maes parcio Stryd Maryport, mae llawer o wahanol fynedfeydd ac mae'r cyfan yn gostwng niferoedd parcio.
 - A allwch roi mwy o leoedd parcio i'r anabl yn ymyl y feddygfa?
- Mae cwestiwn beth yw'r blaenoriaethau yn bwysig i Frynbuga yn nhermau'r hyn y dymunwn i gynnig Brynbuga fod. Mae'r cynllun yn ddefnyddiol wrth osod ein blaenoriaethau a chael prosiectau sy'n barod fel a phryd y daw cyllid ar gael yn y dyfodol.

Casgliad y Cadeirydd:

Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn sylweddoli pwysigrwydd cael y cynllun hwn yn ei le er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllid y dyfodol. Mae'r pwyllgor yn unfrydol yn cymeradwyo'r adroddiad a'i argymhellion.

4. Craffu ar adroddiad diweddar sefyllfa ar gaffael strategol.

Cyflwynodd y swyddog yr adroddiad drwy esbonio bod hyn yn ddiweddariad sefyllfa yn dilyn dod ag adroddiad manwl i'r pwyllgor yn gynharach yn y flwyddyn. Atgoffodd aelodau y cytunodd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021 y byddai'r Cyngor yn dechrau ar Gytundeb Dirprwyo cydfuddiannol gyda Chyngor Caerdydd ar gyfer cyflawni a darpariaeth ein gwasanaethau caffael strategol a gweithredol. Gwahoddir y pwyllgor i graffu ar gynnydd yn cynnwys datblygu cynllun hyfforddiant cysylltiedig ar gyfer Swyddogion.

Esboniodd y swyddog y cafodd newidiadau cynnar eu gwireddu a diolchodd i Bennaeth Caffael Caerdydd a'n Rheolwr Caffael ninnau am eu gwaith caled mewn cyflawni'r rhain mor gynnar. Cyflwynodd y pwyntiau allweddol a amlinellir yn yr adroddiad a thynnodd sylw aelodau at yr adran cynnydd, gan atgoffa'r pwyllgor am amcanion a deilliannau disgwylidig y cynllun gweithio partneriaeth.

Gwahoddodd y cadeirydd gwestiynau gan aelodau.

Cwestiynau gan Aelodau:

Beth yw'r enillion cynnar i Sir Fynwy o'r cydweithio hwn?

Rydym wedi medru dod â pheth o'r profiad a'r wybodaeth y gwnaethom ei ddatblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yng Nghaerdydd i gynorthwyo Sir Fynwy yn yr heriau wrth symud ymlaen. Rydym wedi dechrau datblygu strategaeth caffael ond hyd yma, wedi canolbwyntio ar ddatblygu saith amcan clir i roi ymdeimlad clir o gyfeiriad teithio, er enghraifft datgarboneiddio, gwerth cymdeithasol, sy'n heriol iawn. Hoffem helpu Cyngor Sir Fynwy i gyflymu eu gwaith drwy ddefnyddio ein profiad a'r gwersi a ddysgwyd, fel nad yw Cyngor Sir Fynwy yn gorfod mynd drwy'r un llwybr dysgu. Er enghraifft, mae Caerdydd wedi cynnal Modelu Carbon, felly bydd hynny er budd Cyngor Sir Fynwy. Mae'r 'Model Toms' sy'n ymwneud â sicrhau gwerth cymdeithasol yn rhywbeth y bu Caerdydd yn flaenllaw wrth ei gyflwyno yng Nghymru a rydym

yn dechrau gweld y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth. Y sylw i fanylion am beth o wariant Cyngor Sir Fynwy er enghraifft; hyd nawr ni fu gennym adnoddau i edrych ar hyn mor fanwl ac mae hyn wedi rhoi cyfle i ni wneud hyn.

Y peth pwysicaf yn fy marn i yw'r adnoddau i gynnal y dadansoddiad manwl yma ac mae'n glir nad oedd y gallu gennym i fedru dadansoddi'r manylion. Nid yw'r cyfan am arbed arian, er y bydd cyfleoedd i arbed arian, mae am wireddu gwerth yr arian a gaiff ei wario. Hoffwn i'r pwyllgor hwn fod â rhan wrth edrych ar y contractau hyn yn fanwl rywbryd yn y dyfodol i weld adeniliad ar fuddsoddiad. Rwy'n credu fod potensial enfawr a'n bod yn symud yn union y cyfeiriad cywir wrth gynyddu gwerth am arian i'r cyhoedd.

Mae gennyf ddi-ddordeb neilltuol yn y ffordd y byddech yn gwneud gwariant yn fwy hygyrch drwy fusnes a'r trydydd sector. A oes gennych unrhyw enghreifftiau?

Nid oes unrhyw fuddion penodol y gallem eu dangos ond mae'r rheolau gweithdrefn contract pan gawsant eu hailddrafftio er enghraifft yn ymofyn i'w gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth geisio cynnwys busnesau lleol mewn cyfleoedd. Rhai o'r materion fu 'sut mae ein meysydd gwasanaeth yn gwybod am gyflenwyr lleol' ac a oes unrhyw feddalwedd newydd fydd yn ein helpu i wneud hynny a dweud wrthym pwy yw'r contractwyr lleol. Rydym yn edrych ar ddull mwy amlwg o fynd i'r farchnad a sicrhau fod busnesau lleol yn cael cyfle i gynnig am gontractau, fel y gallwn ddatblygu cofrestr gliriach o gontractau fel y gallwn olrhain a monitro hynny. Rydym yn ceisio deall meysydd gwariant yn well lle mae gennym ddefnydd da o gyflenwyr lleol yn erbyn rhai meysydd lle'r ydym yn cael trafferthion. Os edrychwn ar y manylion, efallai y gwelwn nad oes unrhyw gyflenwyr neu fod rhai y gallem geisio cysylltu gyda nhw. Nid ydym eisiau gwneud y gwaith hwn ar ben ein hunain ond cydweithio gydag eraill a gyda Llywodraeth Cymru, felly mae darn o waith partneriaeth a wnawn ar hyn o bryd yn 'gwneud cyflenwyr lleol yn fwy gweladwy'.

Bydd y 3 swyddog caffael neilltuol a gaiff eu recriwtio yn ein helpu i symud ymlaen o ddifri ar hyn. Mae'n anodd recriwtio swyddogion caffael priodol ond rydym wedi recriwtio i un o'r 3 swydd fydd yn golygu y bydd gan Gyngor Sir Fynwy fwy o gapasiti nag o'r blaen, ond rydyn wedi gorfod ffocysu ar eglurdeb amcanion, dadansoddi gwariant a datblygu llywodraethiant cadarn. Dylai'r swyddi newydd ein helpu i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

A fedrwch ddweud wrthyf sut mae hyn yn cyfeirio at recriwtio gofal cymdeithasol?

Mae gan y sector heriau unigryw a rydym yn gwneud darn penodol o waith yng Nghaerdydd ar hyn o bryd i ddeall sut mae gwariant yn cael ei drin yn y sefydliad. Buom yn canolbwyntio hyd yma ar gael y sylfeini'n gywir.

Beth ydych chi'n ei olygu drwy gefnogi gwerth cymdeithasol ac economaidd-gymdeithasol? Rwy'n awyddus i wybod beth mae hynny yn ei feddwl a sut y bydd gwariant y sector cyhoeddus yn cefnogi cymunedau sydd wedi eu hallgau'n gymdeithasol ar hyn o bryd.

Byddwn yn ateb, os ydych yn gofyn os yw Cyngor Sir Fynwy wedi manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni gwerth cymdeithasol cyn nawr, mai'r ateb fyddai mae'n debyg ddim, ond dyma'n union beth yw cydweithio fel nad ydym ddim ond yn cydymffurfio gyda rheoliadau'r llywodraeth ond yn dysgu sut i fod yn rhagweithiol wrth wneud cynnydd a sicrhau y caiff y 'cyflog byw' ei dalu. Felly rydym yn rhoi'r amser i fod yn glir iawn am ein hamcanion. Deallaf eich bod yn meddwl y dylem fod yn gwneud hyn eisoes ond mae'n heriol ac mae Cyngor Sir Fynwy eisiau gweithio gyda Caerdydd i ddysgu a datblygu o'r sefyllfa yr ydym ynddi ar hyn o bryd.

Ble y gallwn weld y glo mân yn ein contractau? A yw hyn yn rhywbeth y gallwn ei ddisgwyl yn weddol gyflym?

Rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn mewn nifer o feysydd – yn gyntaf drwy fwy o wybodaeth am sut y caiff arian ei wario ond yn ail, sut y mae hyn yn llywio ein blaen-gynllun o sut y gwerir arian yn y dyfodol. Dim ond o ble'r ydym yn awr y gallwn symud ymlaen.

Casgliad y Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion Cyngor Sir Fynwy a Phennaeth Caffael Strategol Cyngor Sir Caerdydd am eu hamser yn mynychu i gyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor. Cytunir y gwahoddir swyddogion i ddychwelyd mewn 9 mis i roi diweddariad pellach ar gynnydd.

5. Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu.

Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau at gyfarfod arbennig o Bwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu a gynhelir ar 14 Rhagfyr ar 2pm i drafod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

6. Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.

Nododd y pwyllgor yr adroddiad ond ni thynnwyd sylw at unrhyw beth oedd angen craffu neilltuol na chafodd ei ystyried wrth ddatblygu rhaglen waith y Pwyllgor Dethol.

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.

8. Cyfarfod nesaf:

3 Chwefror 2022 am 10.00am.